

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



Hysbysiad Preifatrwydd Mabwysiadwr Cymdeithas Plant Dewi Sant

Cyd-destun

Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn Asiantaeth Fabwysiadu Wirfoddol a sefydlwyd yn 1942 i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Prif swyddogaethau'r gymdeithas yw recriwtio, cymeradwyo a chefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu sy'n darparu cartrefi parhaol diogel i blant y mae angen eu mabwysiadu.

Elusen Gofrestredig (Rhif Cofrestru 509163) yw Cymdeithas Plant Dewi Sant ac mae'n gwmni cyfyngedig drwy Warant (Cofrestredig yng Nghaerdydd 1546688).

Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant wedi ymrwmo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi i ni a'r ffyrdd rydym yn diogelu eich preifatrwydd.

O dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 **Wendy Keidan, Prif Swyddog Gweithredol** Cymdeithas Plant Dewi Sant yw'r '**rheolwr data**' ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod data personol sy'n cael ei chadw amdanoch chi'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir yn yr hysbysiad hwn.

Yr hyn mae'r polisi hwn yn ei gwmpasu

Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol i'r data rydyn ni'n ei gasglu yn y ffyrdd canlynol:

- Data wedi'i gaffael drwy weithgarwch recriwtio ar gyfer darpar fabwysiadwyr h.y. Yn ystod yr Ymholiad Cychwynnol a'r Ymweliad Cychwynnol.
- Data wedi'i gaffael unwaith y bydd teuluoedd rhwng dechrau'r asesiad a'r Gorchymyn Mabwysiadu (h.y. O pryd y cyflwynir Cofrestru Diddordeb i'r adeg y rhoddir y Gorchymyn Mabwysiadu).
- Data wedi'i gaffael gan deuluoedd sy'n defnyddio Cymorth Ôl-fabwysiadu h.y. y rhai sy'n darparu data ar ôl i'r Gorchymyn Mabwysiadu gael ei roi.
- Unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu am deuluoedd sy'n mabwysiadu drwy ymgysylltu ag unrhyw wasanaethau a gynigir (grwpiau, gweithdai a chyrsgiau).

Mae polisi preifatrwydd ar wahân sy'n cynnwys data a gesglir drwy'r wefan (www.adoptionwales.org) ac ar gyfer data a gaffaelwyd drwy ddibenion codi arian, gwirfoddoli a marchnata.

Deddf Diogelu Data 2018

Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn trin yr holl wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi i ni, neu rydyn ni'n ei chael gennych, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data. O dan y Ddeddf hon, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu unrhyw wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu gennych. Rydym yn defnyddio technolegau a meddalwedd amgryptio i ddiogelu

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



eich data a chadw safonau diogelwch llym i atal unrhyw fynediad heb awdurdod iddo.

Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r polisi hwn yn parhau i fod yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018. Gellir adolygu Deddf a Rheoliad Diogelu Data 2018 ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.gov.uk.

Sut ydyn ni'n casglu gwybodaeth?

Rydym yn cael gwybodaeth bersonol gennych chi pan fyddwch yn holi am ein gweithgareddau a'n gwasanaethau, yn gofyn cwestiwn, yn cofrestru i fynychu gweithgaredd neu ddigwyddiad, yn anfon neu'n derbyn e-bost, neu'n rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni mewn unrhyw ffordd arall.

Gellir casglu'r data hwn gennych mewn sawl ffordd – drwy ffurflenni ar-lein yr ydych wedi'u cwblhau, dros y ffôn, cyfarfodydd/sgyrsiau wyneb yn wyneb, derbyn gohebiaeth ysgrifenedig gennych chi drwy e-bost neu drwy'r post, a gan unigolion ac asiantaethau eraill lle rydych chi wedi rhoi caniatâd penodol ar gyfer hyn.

Y wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu

Rydym yn casglu ac yn cadw data rydych chi'n ei rannu gyda ni fel rhan o ymholiad i fabwysiadu, fel rhan o'r broses asesu mabwysiadu, cais am gymorth ôl-fabwysiadu neu ganiatâd i gysylltu mewn perthynas â chodi arian, gwirfoddoli a marchnata. Gall y data hwn fod yn gategori personol ac arbennig.

Mae'r math o wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu a sut rydym yn ei defnyddio yn amrywio yn dibynnu ar pam rydych chi'n ei darparu. Gallai hyn gynnwys:

- Eich teitl, enw, rhyw a dyddiad geni
- Eich cyfeiriad, rhif ffôn, rhif ffôn symudol, cyfeiriad e-bost, a'ch dewisiadau o ran sut y dylem gysylltu â chi yn y dyfodol
- Cofnodion o'ch gohebiaeth gyda ni
- Manylion am eich perthnasoedd, h.y. eich teulu, partner/priod, perthnasoedd â rhoddwyr/mabwysiadwyr neu sefydliadau eraill
- Gwybodaeth nad yw'n eich gwneud yn hysbys am eich ymweliad â'n gwefan, gan gynnwys gwybodaeth dechnegol fel eich cyfeiriad IP
- Unrhyw wybodaeth arall a ddarperir gennych chi eich hun sy'n berthnasol i'ch perthynas â ni.
- Gall gwybodaeth y gallech chi ei rhoi i ni fel rhan o'ch ymholiad am ddod yn rhiant mabwysiadol, asesu neu gael Cymorth Ôl-fabwysiadu gynnwys llawer iawn o ddata personol a sensitif.

Drwy ofyn i Gymdeithas Plant Dewi Sant asesu eich priodoldeb i fabwysiadu, byddwch yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth a bydd agweddau ar eich data yn cael eu prosesu fel un o

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



amodau'r gwasanaeth hwn. Ar bob cam o'r broses fabwysiadu, a lle bo'n berthnasol, bydd caniatâd a chydysniad ychwanegol yn cael eu didoli i ddal a/neu rannu gwybodaeth.

Data Personol

Bydd y wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei chasglu gennych chi'n cael ei defnyddio at ddibenion mabwysiadu yn unig. Mae hyn er mwyn asesu a yw mabwysiadu'n iawn i chi a'ch teulu; os mai nawr yw'r adeg iawn i chi fabwysiadu ac os gallwch chi fabwysiadu'r plant sydd angen teuluoedd mabwysiadol ar hyn o bryd. O'ch ymholiad cychwynnol, yn ystod y prosesau asesu mabwysiadu, a thu hwnt i wneud y Gorchymyn Mabwysiadu byddwn yn casglu ac yn cadw gwybodaeth bersonol.

Byddwn hefyd yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi os byddwch yn cysylltu â Chymdeithas Plant Dewi Sant i gael rhagor o gymorth yn y blynyddoedd ar ôl gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu neu roi caniatâd i gysylltu mewn perthynas â chodi arian, gwirfoddoli neu farchnata.

Data Personol Sensitif

Mae Cyfraith Diogelu Data yn cydnabod bod rhai categorïau o ddata yn fwy sensitif nag eraill. Gelwir y rhain yn gategorïau arbennig o ddata personol ac maen nhw'n cynnwys gwybodaeth am iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig unigolyn, barn wleidyddol, credoau crefyddol, a data genetig a biometrig o 25 Mai 2018.

Gofynnwn i chi am rywfaint o'r wybodaeth sy'n cael ei hystyried fel categorïau arbennig o ddata, gan fod angen hyn fel rhan o asesiad o ddarpar fabwysiadwyr. Mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau ynghylch asesiadau mabwysiadu yn llywio ein gwaith o gasglu data ar y materion hyn. Diben y casgliad data hwn yw galluogi cwblhau asesiadau cadarn ac maen nhw'n unol â deddfwriaeth a gofynion mabwysiadu.

Wrth gael mynediad at wasanaethau cymorth, efallai y byddwn hefyd yn gofyn am y data hwn, er enghraifft ynglŷn â'ch iechyd, i sicrhau ein bod yn darparu cymorth a chyfleusterau priodol.

Pam ydyn ni'n casglu eich gwybodaeth?

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol gennych chi er mwyn:

- Ymateb i'ch ymholiad, cwestiwn neu gŵyn
- Cofrestru eich presenoldeb mewn 'noson wybodaeth' neu un o'n digwyddiadau
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith, ein gweithgareddau a'r digwyddiadau a gynigiwn
- Cyfathrebu â chi am agweddau ar ein gwaith sy'n berthnasol i chi neu yr ydych chi wedi mynegi diddordeb ynddynt
- Cadw cofnod o'ch perthynas â ni
- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau, ein polisiau a'n gweithdrefnau cyfreithiol

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



- Bodloni gofynion archwilio ariannol
- Deall sut y gallwn wella ein gwasanaethau, ein cynnyrch neu ein gwybodaeth

Sut mae data'n cael ei ddefnyddio

Yn dilyn ymholiad cychwynnol neu gais am wybodaeth bydd eich gwybodaeth am ddata yn cael ei rhannu gyda staff mewnol sy'n ymateb i'r cais. Mewn amgylchiadau eithriadol fel pryderon amddiffyn plant neu ddiogelu, gellir ei rannu â phartion allanol yn unol â'n cyfrifoldebau statudol. Mae hefyd yn ofynnol i ni o dan ddyletswyddau statudol ddarparu gwybodaeth i asiantaethau maethu a mabwysiadu allanol os bydd cais yn cael ei wneud, gennyh chi, iddyn nhw.

Yn ystod asesiad byddwn yn rhannu gwybodaeth gydag unigolion, asiantaethau neu sefydliadau perthnasol i wirio'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu. Bydd hyn yn cynnwys cyswllt â'r canlynol;

- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS),
- yr Awdurdod Lleol yr ydych yn byw ynddo,
- cyflogwyr presennol,
- gwiriadau ariannol,
- ac os yw'n berthnasol, ysgolion a meithrinfeydd.

Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth â'r unigolion hynny yr ydych wedi'u henwebu fel canolwyr personol ac, os yw'n berthnasol, yn cysylltu â chyn-bartneriaid. Mae angen i ni fod mor sicr ag y gallwn y byddwch yn gallu gofalu am blentyn hyd at fod yn oedolyn ac mae'r gwiriadau hyn yn cefnogi ein dealltwriaeth.

Byddwn yn gofyn am eich caniatâd i chi gael archwiliad meddygol gan eich ymarferwyr meddygol cofrestredig a fydd wedyn yn anfon adroddiad ysgrifenedig at gynghorydd meddygol dynodedig sy'n adrodd i'r Asiantaeth Fabwysiadu. Os teimlwn fod angen ymholiadau pellach gan arbenigwyr meddygol, byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eich caniatâd penodol i gael rhagor o wybodaeth iechyd.

Nid ydym byth yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i unrhyw bartion eraill oni bai ein bod wedi cael eich caniatâd i wneud hynny ymlaen llaw. Byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflenni perthnasol er mwyn i ni fwrw ymlaen â'ch cais. Wrth lofnodi'r ffurflenni hyn, rydych chi'n rhoi caniatâd penodol i Gymdeithas Plant Dewi Sant brosesu'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu gennyh chi nawr a thra byddwn ni'n ymwneud â chi at ddibenion mabwysiadu. Os byddwch chi'n dewis tynnu eich caniatâd yn ôl yn ddiweddarach, ni fyddwn yn gallu asesu eich addasrwydd i fod yn fabwysiadwr. Yn yr achos hwn, byddwn yn gwaredu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'ch amgylchiadau unigol eich hun sy'n seiliedig ar egwyddorion cymesuredd a rhesymoldeb Diogelu Data.

Unwaith y byddwch chi wedi cael eich cymeradwyo fel mabwysiadwr, mae unrhyw ddata

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



sy'n cael ei gasglu, ei rannu a'i brosesu yn cael ei reoli gan y ddeddfwriaeth sy'n sail i Gymdeithas Plant Dewi Sant fel Asiantaeth Fabwysiadu Wirfoddol.

Byddwn yn gofyn am eich caniatâd i'ch gwybodaeth bersonol gael ei defnyddio at ddibenion cyfathrebu â chi mewn perthynas â gwasanaethau ychwanegol a ddarperir gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, gan gynnwys codi arian, gwirfoddoli a marchnata.

Datgelu data personol i drydydd partïon

Fel y nodwyd, nid ydym yn datgelu eich data personol i unrhyw drydydd partïon heb eich caniatâd ac eithrio i'r graddau yr ydych chi wedi cydsynio neu ei bod hi'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith am wybodaeth fel gorchymyn llys, gwŷs tystion, neu gŵyn gan awdurdodau llywodraethol.

Efallai y bydd rhai amgylchiadau, megis pryderon amddiffyn plant neu ddiogelu, lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i rannu heb eich caniatâd. Dim ond lle bo angen ac yn unol â'n rhwymedigaethau statudol y bydd hyn.

Rydym wedi ymrwymo i gytundeb WASPI ar rannu gwybodaeth.

Cadw eich data'n ddiogel

Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn cymryd ei rhwymedigaethau Diogelu Data o ddifrif. Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn amodol ar fesurau a gweithdrefnau diogelwch trwyadl i sicrhau na ellir ei gweld. Rydym wedi rhoi mesurau ffisegol ac electronig priodol ar waith (gan gynnwys ardstiad Cyber Essentials), polisïau diogelwch a gweithdrefnau rheoli i ddiogelu a ddiogelu data personol rydym yn ei storio rhag mynediad heb awdurdod, defnydd amhriodol, newid, dinistr anghyfreithlon neu ddamweiniol neu golled ddamweiniol.

Bydd y wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn rhan o gofnod achos yr asiantaeth mewn perthynas â'ch cofnodion mabwysiadu ac unwaith y bydd gorchymyn mabwysiadu mabwysiadwr cymeradwy yn cael ei wneud bydd yn cael ei storio a'i waredu yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 a Gwelliannau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2020.

Dim ond personél awdurdodedig fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth bersonol. Mae rhwymedigaeth gytundebol ar bob personél sydd â mynediad i'ch data personol i barchu cyfrinachedd eich data personol.

Sut rydym yn diogelu eich gwybodaeth

1. Ein nod yw sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Fel rhan o'n hymrwymiad i hyn rydym yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau priodol i sicrhau a rheoli eich gwybodaeth bersonol yn briodol. Rydym hefyd yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein rhwydwaith, lle rydym yn cyflawni ein

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



holl swyddogaethau TG ar draws yr elusen, a'n gwefannau'n cael eu diogelu a'u monitro'n rheolaidd.

2. Mae gwybodaeth am ddarpar fabwysiadwyr yn cael ei storio'n ddiogel, gwneir hyn drwy gadw eich gwybodaeth ar y gronfa ddata "CHARMS" sy'n cydymffurfio'n llawn â GDPR.
3. Bydd eich gwybodaeth ar bob pwynt arall ar eich taith fel mabwysiadwr gyda Chymdeithas Plant Dewi Sant yn cael ei chadw ar ein systemau TG diogel ac ar ein Gweinyddwyr diogel.

Data priod neu bartner

Yn ystod ymholiad cychwynnol gofynnir i chi rannu gwybodaeth am briod neu bartner sy'n byw gyda chi. Gofynnir i chi rannu eu henw, eu hoedran a'u statws perthynas ochr yn ochr â chwestiynau iechyd penodol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu mewn perthynas â Rhan 4 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ac yn cael ei phrosesu yn unol â buddiannau cyfreithlon yr asiantaeth wrth ddarparu'r gwasanaeth y gofynnir amdano. Gofynnir am ganiatâd i gadw data personol yn uniongyrchol gan yr unigolyn cyn gynted â phosibl. Bydd hefyd yn ofynnol i chi rannu unrhyw fanylion aelodau eraill o'r cartref.

Data Canolwr

O dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (rhan 1 o Atodlen 4) mae'n ofynnol i Gymdeithas Plant Dewi Sant ofyn i ddarpar fabwysiadwyr ddarparu enwau tri chanolwr. Bydd y wybodaeth gyswllt hon yn cael ei chadw'n ddiogel ar systemau Cymdeithas Plant Dewi Sant yn ôl yr angen ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Ar gysylltiad uniongyrchol â chanolwr, byddwn yn ceisio caniatâd i gadw ei wybodaeth bersonol a fydd yn cael ei storio'n ddiogel gyda'r wybodaeth sy'n cael ei ddarparu gan y canolwr. O dan y rheoliadau bydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhannu gan ganolwr yn gyfrinachol a dim ond gyda chydysniad llawn y bydd yn cael ei rhannu. Mae gwybodaeth y canolwr yn cael ei chadw yn unol â'r asesiad mabwysiadu mewn perthynas â'r cyfnodau cadw a nodwyd.

Cyfnod Cadw

Darpar Fabwysiadwyr: Cyn i Orchymyn Mabwysiadu gael ei wneud:

Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 yn nodi ei bod "yn ôl disgrisiwn yr asiantaeth i gadw cofnodion am unrhyw gyfnod fel sy'n cael ei ystyried yn briodol". Mae'r cyfnodau a nodir isod yn parhau yn ôl disgrisiwn yr asiantaeth a byddant yn cael eu trafod a'u cytuno ar sail unigol fel rhai rhesymol a phriodol.

- i. Bydd yr holl ddata sy'n cael ei ddarparu yn yr ymholiad cychwynnol yn cael ei gadw am gyfnod o 18 mis neu fel y tybir sy'n angenrheidiol.
- ii. Bydd yr holl ddata sy'n cael ei ddarparu yn yr ymholiad cychwynnol yn cael ei gadw am gyfnod o 5 mis neu fel y tybir sy'n angenrheidiol.
- iii. Bydd yr holl ddata a ddarperir yn ystod asesiad mabwysiadu **nad yw'n** mynd ymlaen

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



- i'r panel a'r Sawl sy'n Gwneud Penderfyniadau'r Asiantaeth (ADM) yn cael ei gadw am gyfnod o 5 mlynedd neu fel y bernir sy'n angenrheidiol.
- iv. Bydd yr holl ddata a ddarperir yn ystod asesiad mabwysiadu **sy'n** mynd ymlaen i banel ac ADM ond **nad** yw'n cael ei gymeradwyo yn cael ei gadw am gyfnod o 5 mlynedd neu fel y bernir sy'n angenrheidiol.
 - v. Bydd yr holl ddata a ddarperir yn ystod asesiad mabwysiadu lle mae'n cael ei gymeradwyo ar ôl cymeradwyo ond nad yw'n mynd ymlaen i orchymyn mabwysiadu a chyn Gorchymyn Mabwysiadu yn cael ei gadw am gyfnod o 6 blynedd neu fel y tybir sy'n angenrheidiol.

Mabwysiadwyr Cymeradwy: Unwaith y bydd Gorchymyn Mabwysiadu wedi'i wneud

Yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, bydd yr holl ddata personol yn cael ei gadw am **100 mlynedd ar ôl y Gorchymyn Mabwysiadu**. Bydd hyn yn cynnwys eich cofnod achos a chofnod achos eich plentyn/plant.

Plant

Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant yn derbyn gwybodaeth am blant yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (rhan 5, Rheoliad 32). Mae gwybodaeth plant yn cael ei rhannu â Chymdeithas Plant Dewi Sant gan y pum Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol yng Nghymru neu gan Gofrestr Fabwysiadu Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu er mwyn nodi a chyfateb mabwysiadwyr priodol ar gyfer plant sy'n aros.

Pan fydd gwybodaeth plant yn cael ei lawrlwytho, bydd yn cael ei storio'n ddiogel. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw fel a ganlyn:

- a) Yn dilyn adolygiadau gan weithwyr cymdeithasol ac **NAD YW** plant darpar fabwysiadwyr yn cael eu lleoli, bydd y wybodaeth yn cael ei dileu o fewn 3 mis i'r dyddiad pan gadwyd y wybodaeth.
- b) Os bydd cyfarfod craffu'n cael ei gynnal ac NAD yw'r plant yn mynd ymlaen i gael eu lleoli, bydd y wybodaeth yn cael ei dileu o fewn 3 mis i ddyddiad y cyfarfod craffu.
- c) Os bydd panel paru'n cael ei gynnal ac NAD yw'r plant yn mynd ymlaen i gael eu lleoli, bydd y wybodaeth yn cael ei dileu o fewn 3 mis i ddyddiad y panel paru.
- d) Os bydd tarfu'n digwydd, mater i'r asiantaeth yw cytuno ar gadw gwybodaeth a chytunir ar hyn gyda'r awdurdod lleol.
- e) Mewn perthynas â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd lle nad yw plentyn yn mynd ymlaen i gael ei baru bydd gwybodaeth atgyfeirio'r plant yn cael ei storio nes bydd cytundeb ar y cyd â'r Awdurdod Lleol i dynnu'r plentyn yn ôl o'r Gwasanaeth. Ar ôl derbyn ffurflen tynnu'n ôl, bydd gwybodaeth y plentyn yn cael ei dileu o fewn 2 wythnos waith.
- f) Yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 bydd gwybodaeth am blant yn cael ei storio am 100 mlynedd yn dilyn Gorchymyn Mabwysiadu.

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



Gwybodaeth Adborth a Gwerthuso

Dylid dinistrio unrhyw ffurflenni adborth neu werthuso ar ôl 10 mlynedd.

Bydd astudiaethau achos yn cael eu cadw fel y bernir sy'n angenrheidiol gan yr asiantaeth neu'n cael eu dinistrio ar gais gan gyfranogwr yr astudiaeth achos.

Cysylltu â ni i gael mynediad at ddata personol

Mae gennych chi hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw arnoch gan yr asiantaeth. Mae gennym bolisi ar wahân ar **Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth** ar gyfer y broses hon.

I ofyn am gopi o'ch gwybodaeth personol, cysylltwch â ni ar info@stdavidscs.org. Bydd disgwyl i chi ddarparu prawf adnabod. I'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu, fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i wrthod rhoi gwybodaeth i chi. Yn y sefyllfa hon, byddwn yn rhoi rhesymau i chi dros y gwrthodiad hwn.

Os bydd data anghywir yn cael ei gadw, gallwch ofyn iddo gael ei ddiweddarau, oni bai bod y wybodaeth gan drydydd parti neu'n cael ei chasglu fel rhan o broses ddiogelu.

Mae Cais Gwrthrych am Wybodaeth yn rhad ac am ddim. Os bydd cais yn amlwg yn ddi-sail, yn ormodol neu'n ailadroddus, mae'r asiantaeth yn cadw'r hawl i godi 'ffi resymol' neu i wrthod ymateb gydag esboniad llawn. Gellir codi ffi hefyd os am gydymffurfio â cheisiadau pellach am yr un wybodaeth. Bydd y ffi a godir yn seiliedig ar gostau gweinyddol darparu'r wybodaeth.

Darperir gwybodaeth yn ddi-oed ac o fewn 30 diwrnod i'r cais. Yn achos ceisiadau cymhleth neu niferus, bydd y cyfnod cydymffurfio yn cael ei ymestyn i uchafswm o 60 diwrnod arall. Yn yr achos hwn, bydd yr unigolyn yn cael gwybod o fewn mis i'r cais gydag esboniad o estyniad.

Rhaid trosglwyddo unrhyw gais am Gais Gwrthrych am Wybodaeth i'r Prif Swyddog Gweithredol fel Rheolwr Data ar unwaith. Bydd y rheolwr data yn penderfynu pa wybodaeth y gellir (os o gwbl) ei rhannu neu ei dileu.

Mae cofnodion mabwysiadu yn dod o dan awdurdodaeth y Ddeddf Mabwysiadu sydd â pholisi cadw cofnodion o 100 mlynedd ar gyfer cofnodion mabwysiadu, sy'n drech na'r ddeddfwriaeth diogelu data. Fodd bynnag, gallwch ofyn i fanylion cyswllt cyfredol gael eu dileu neu ofyn i ni beidio â chysylltu â chi at ddibenion marchnata, gwirfoddoli neu godi arian.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon eraill am ein datganiad a'n harferion preifatrwydd, cysylltwch â ni yn info@stdavidscs.org

Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2018
Dyddiad Adolygu:	Tach 2020



Gweithdrefn Gwyno

Os ydych chi'n gwneud cwyn am ein defnydd o'ch data personol, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) www.ico.org.uk

Newidiadau i'r polisi hwn

Diweddarwyd y polisi hwn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2020. Efallai y byddwn yn diweddarau telerau'r polisi hwn ar unrhyw adeg, felly gwiriwch ef o bryd i'w gilydd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am newidiadau sylweddol yn y ffordd rydym yn trin gwybodaeth bersonol drwy anfon hysbysiad i'r prif gyfeiriad e-bost rydych chi wedi'i roi i ni neu drwy roi hysbysiad amlwg ar ein gwefan(nau)